

Disgrifiad Swydd

Y Rôl:	Swyddog Rhanbarthol (Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol)
Graddfa Cyflog:	C
Rhif cyfeirnod:	
Tîm:	Cynllun y Celfyddydau a Dysgu Creadigol Arweinydd Rhanbarthol (Cynllun y Celfyddydau a Dysgu Creadigol)
Yn atebol i:	Lleolir yn un o'r pedwar consortia addysg rhanbarthol
Lleoliad:	

Cyngor Celfyddydau Cymru

Elusen annibynnol yw'r Cyngor a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ym 1994. Penodir ein haelodau gan Lywodraeth Cymru.

Gan Lywodraeth Cymru y cawn y rhan fwyaf o'n harian. Rydym hefyd yn dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol ac yn codi arian ychwanegol ar gyfer y celfyddydau lle y bo'n bosibl o amryw ffynonellau yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus.

Mawr yw ein huchelgais dros gelfyddydau Cymru. Mae gennym weledigaeth ar gyfer Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau wrth wraidd bywyd y genedl, gan wneud Cymru'n lle cyffrous a bywiog i'w thrigolion, ei gweithwyr a'i hymwelwyr. Dibynna llwyddiant ein gweledigaeth ar ddychymyg a chreadigrwydd ein hartistiaid, safon eu gwaith a'r ymdrechion a wneir i gyrraedd cynulleidfaoedd a'u hysbrydoli. Gweithiwn i greu amgylchedd lle gall artistiaid uchelgeisiol a mentrus dyfu a ffynnu, a lle y gall cynifer o bobl â phosibl gymryd rhan yn y celfyddydau.

Ein gwerthoedd

Ein gwerthoedd sydd wrth wraidd popeth a wnawn - ein diwylliant, ein camau gweithredu, ein cydweithio a'n cyflawniadau. Rydym yn llwyr ymrwymedig i greu diwylliant lle cydnabyddir, perchir a datblygir talentau ein staff. Rydym yn awyddus i recriwtio pobl a all gynnal ein gwerthoedd a chyfrannu'n gadarnhaol at ein sefydliad.

Mae ein gwerthoedd yn gymorth inni yn ein huchelgais i fod yn:

arbenigol	effeithiol	creadigol	cydweithredol	agored	atebol
-----------	------------	-----------	---------------	--------	--------

Y rôl hon

Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn cydweithio ar brosiect mawr i wella ansawdd dysgu creadigol yn ysgolion Cymru. Mae rhaglen uchelgeisiol o weithgareddau wedi'i nodi yng **Nghynllun y Celfyddydau a Dysgu Creadigol**.

Mae'r Cynllun yn nodi strategaeth a weithredir ar y cyd sy'n galluogi Cyngor y Celfyddydau a Llywodraeth Cymru i gydweithio er mwyn gweithredu'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad adolygu Y Celfyddydau mewn Addysg (Smith 2013). Bydd deiliad y swydd yn chwarae rôl bwysig wrth gynorthwyo'r Rheolwr Rhaglen i weithredu'r argymhellion hynny. Ceir crynodeb o'r gweithgareddau allweddol isod.

Mae Cynllun y Celfyddydau a Dysgu Creadigol yn cynnwys dau brif faes:

- Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol
- Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan

Bydd **Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol** yn fenter wedi'i llywio gan geisiadau sy'n cefnogi ysgolion dros gyfnod o ddwy flynedd o leiaf i gyflawni gwelliannau dysgu. Rhagwelir y bydd mwy na thraean o ysgolion wedi cymryd rhan yn y rhan hon o'r rhaglen ymhén pum mlynedd.

Trefnir y broses o gyflawni'r Cynllun yn ôl yr ardaloedd daearyddol a gynrychiolir gan y pedwar consortia addysg rhanbarthol. Caiff gweithiwr creadigol proffesiynol wedi'i hyfforddi'n arbennig ei neilltuo i ysgolion sy'n cymryd rhan yn y Cynllun, a fydd, mewn cydweithrediad â'r consortiwm rhanbarthol, yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu rhaglen a fydd yn mynd i'r afael a blaenoriaethau a nodwyd.

Bydd yr ysgolion sy'n gwneud cais i fod yn Ysgolion Creadigol Arweiniol yn nodi materion allweddol y dymunant fynd i'r afael â hwy drwy ddull creadigol o ddysgu. Caiff gweithiwr creadigol proffesiynol/artist/sefydliad celfyddydol neu dreftadaeth wedi'i hyfforddi'n arbennig ei neilltuo i ysgolion a dderbynnir ar y cynllun, a fydd yn chwarae rôl **'Asiant Creadigol'**. Bydd yr Asiant Creadigol yn gweithio gyda'r ysgolion i ddatblygu prosiect neu raglen waith a fydd yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd. Bydd artistiaid ac ymarferwyr creadigol eraill yn rhan o'r gwaith gwirioneddol o gyflawni'r prosiect.

Caiff y cynllun ei gefnogi gan raglen hyfforddi bwrpasol helaeth. Caiff carfan o hyfforddwyr yng Nghymru eu hyfforddi dros y ddwy flynedd gyntaf er mwyn darparu

hyfforddiant i athrawon, gweithwyr creadigol proffesiynol, hyrwyddwyr y celfyddydau a sefydliadau celfyddydol a threftadaeth.

Nod **Cynllun y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan** yw ychwanegu at weithgarwch presenol a'i wella. Ategir y Rhaglen gan nifer o feysydd gweithgarwch, gan gynnwys:

- cyfleu'r hyn a gynigir yn well, **drwy borth newydd ar gyfer y celfyddydau a dysgu creadigol**. Caiff hwn ei sefydlu a'i letya ar Hwb, sef llwyfan dysgu Cymru gyfan Llywodraeth Cymru
- llwybrau gwell at **gefnogaeth a chynnydd ar gyfer ein dysgwyr mwy galluog a thalentog**
- cyngor gwell ar **yrfaeodd ym maes y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol** fel bod dysgwyr yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael a'r sgiliau sy'n ofynnol
- gwell **hyfforddiant i athrawon**
- adolygiad o'r celfyddydau mewn ysgolion **dan arweiniad ESTYN**
- **Cronfa Profi'r Celfyddydau**

Bydd **Cronfa Profi'r Celfyddydau** yn annog ysgolion i gynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc 'fynd gam ymhellach' wrth chwilio am brofiadau diwylliannol a chelfyddydol. Gellir defnyddio'r gronfa hon i gefnogi ymweliadau â lleoliadau fel orielau a theatrau er mwyn cyfoethogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth, neu ei defnyddio i gefnogi cyfleoedd newydd ac arloesol i gydweithio rhwng ysgolion a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol. Sut bynnag, disgwylir i ysgolion ddangos sut mae'r gweithgarwch yn cyfrannu at ddysgu ac yn ei gyfoethogi ac yn cynnig rhywbeth newydd ac ysgogol i ddysgwyr.

Gwneir cais am Wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os caiff swydd ei chynnig i unigolyn.

Prif gyfrifoldebau

1. **Llywodraethu** - Cefnogi'r Arweinydd Rhanbarthol, yn ôl yr angen, a mynychu cyfarfodydd â phartneriaid a rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â chyflawni Cynllun y Celfyddydau a Dysgu Creadigol
2. **Polisi** - Gweithio gyda'r Arweinydd Rhanbarthol i fynychu cyfarfodydd a sgysiau sy'n ymwneud â Chynllun y Celfyddydau a Dysgu Creadigol yng Nghymru.
 - Helpu i gyflawni ein strategaeth Gydraddoldeb.

3. **Arbenigedd** - Cefnogi'r Arweinydd Rhanbarthol drwy helpu i wneud y canlynol:
 - Cyflawni Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ar lefel ranbarthol
 - Helpu'r Arweinydd Rhanbarthol i fonitro, gwerthuso a chyflwyno adroddiadau o fewn amgylchedd prosiect

4. **Cyflawni prosiectau** – trefnu a chyfathrebu'r gwaith o gyflawni tasgau a phrosiectau (naill ai fel unigolyn neu fel rhan o dîm) sy'n gysylltiedig â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ochr yn ochr â'r Arweinydd Rhanbarthol.
 - Helpu'r Arweinydd Rhanbarthol i drefnu gweithgareddau yn yr ardal dan sylw a helpu i weithredu rhaglenni gwaith, prosiectau a mentrau yn unol ag amcanion sefydliadol.
 - Helpu'r Arweinydd Rhanbarthol i sicrhau ansawdd a monitro Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol mewn rhanbarth penodol.
 - Helpu i werthuso Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol mewn ardal benodol, gan gynnwys helpu'r Arweinydd Rhanbarthol i asesu ceisiadau, paru Asiantau Creadigol ag ysgolion a chasglu dogfennau rhaglen gan ysgolion.
 - Helpu i drefnu gweithgarwch rhanbarthol, gan gynnwys digwyddiadau, gweithdai, prosiectau a chomisiynau, gan geisio cyngor lle y bo'n briodol.
 - Rhoi cymorth ymarferol a gweinyddol er mwyn cydlynu rhaglen ymchwil leol a fydd yn cyfrannu at werthusiad cenedlaethol o Ysgolion Creadigol Arweiniol.
 - Casglu gwybodaeth gronfa ddata gan gynnwys gwybodaeth rhanddeiliaid, casglu deunyddiau monitro a gwerthuso, a helpu i weinyddu prosiectau.

5. **Cyngor a gwybodaeth** – cefnogi amcanion prosiect drwy gysylltu â phartneriaid mewnol ac allanol drwy:
 - Ymateb i geisiadau am help neu gyngor ynglŷn â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.
 - Rhoi gwybodaeth a chanllawiau i ysgolion, artistiaid a sefydliadau celfyddydol ar bob agwedd ar Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.
 - Paratoi a lledaenu gwybodaeth.

- Cysylltu â swyddogion cyfathrebu mewnol ac arweinydd porth Hwb er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am y prosiect yn cael ei throsglwyddo i randdeiliaid a phartneriaid.
6. **Ymgysylltu** - helpu'r Arweinydd Rhanbarthol i feithrin cydberthnasau cadarnhaol a chydweithredol ag artistiaid, sefydliadau celfyddydol, addysg a phartneriaid perthnasol.
 7. **Cynnydd a safonau** - helpu'r Arweinydd Rhanbarthol i gyflawni Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol er mwyn sicrhau y caiff cynnydd ei olrhain, ac y caiff y Cynllun ei gyflawni'n briodol ac yn amserol yn unol â'r safonau gofynnol.
 8. **Eiriolaeth** - helpu i hyrwyddo Cynllun y Celfyddydau a Dysgu Creadigol yn ei gyfanrwydd a'r gweithgareddau y bwriedir iddo eu hannog.
9. **Partneriaethau a Rheoli Cydberthnasau**
 - Helpu'r Arweinydd Rhanbarthol i ddatblygu rhwydweithiau rhanddeiliaid mewnol ac allanol.
 - Cefnogi a chydweithio'n effeithiol â thimau ledled Cymru er mwyn cyrraedd nod a rennir.
 - Helpu i feithrin cydberthnasau ag ysgolion yn y rhanbarth perthnasol.
 - Helpu i feithrin cydberthnasau gwaith agos â'r Consortia Addysg Rhanbarthol a'u timau.
 - Gweithio'n agos gyda rhwydwaith rhanbarthol y celfyddydau ac addysg er mwyn rhannu enghreifftiau o arfer gorau.

Gwybodaeth, profiad a sgiliau

Rydym yn awyddus i ddenu pobl i'n sefydliad sydd â diddordeb yn y celfyddydau ac addysg, ymrwymiad i egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus agored ac atebol, a'r ddawn i weithio gydag amrywiaeth o gwsmeriaid. Credwn mewn gosod y safonau uchaf posibl ym mhob agwedd ar ein gwaith. Felly, mae pob aelod o staff yn gennad i'r cwmni a disgwyliwn i bawb barchu a chynnal ein henw da.

Anelwn at fod yn sefydliad arloesol a blaengar. Disgwyliwn i'n staff gydweithio â'i gilydd er mwyn sicrhau ein bod yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddefnyddiol.

Rydym yn cymryd yn ganiataol y bydd ein staff yn gymwys wrth reoli tasgau gweinyddol arferol ac y byddant wedi meithrin sgiliau trefnu da. Felly, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn staff sydd â'r gallu i weithio'n greadigol ac yn hyblyg er

mwyn mynd i'r afael â'r heriau y byddant yn eu hwynebu - staff sydd a'r blaengaredd a'r ysgogiad i ffynnu mewn amgylchedd gwaith prysur ac sy'n cael boddhad wrth gyflawni targedau uchelgeisiol a heriol.

At hynny, mae'r wybodaeth, y profiad a'r sgiliau canlynol yn ofynnol ar gyfer y rôl hon:

Gwybodaeth

1. Brwdfrydedd dros y celfyddydau ac addysg yn ogystal â'r weledigaeth i gefnogi mentrau sy'n datblygu Cynllun y Celfyddydau a Dysgu Creadigol.
2. Gwybodaeth am dechnegau rheoli prosiect.
3. Gwybodaeth am arferion Celfyddydol ac Addysgol yng Nghymru.
4. Dealltwriaeth drylwyr o faterion cydraddoldeb a'r modd y cânt eu cymhwyso'n ymarferol at waith Cyngor y Celfyddydau.
5. Sgiliau TG a gweinyddol cymwys.

Profiad

6. Gradd yn y celfyddydau neu addysg a/neu o leiaf dair blynedd o brofiad proffesiynol mewn maes gweithgarwch perthnasol o fewn y celfyddydau neu addysg.
7. Profiad o gyfathrebu a gweithio i gefnogi prosiectau ym maes Addysg, y Celfyddydau a/neu ddysgu creadigol.
8. Profiad o gefnogi digwyddiadau, cyfarfodydd a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â phrosiectau.
9. Profiad o weithio mewn amgylchedd gyda nifer o bartneriaid a rhanddeiliaid.
10. Rhywfaint o wybodaeth am faterion ariannol a busnes.
11. Profiad o gasglu, cydlynu a lledaenu gwybodaeth o fewn amgylchedd prosiect.

12. Rheoli cronfeydd data, systemau a chasglu gwybodaeth rhanddeiliaid a phrofiad amlwg o ddarparu gwasanaethau a chymorth gweinyddol o ansawdd uchel.

Priodweddau

13. Y gallu i ddilyn hynt polisiau a mentrau newydd yn y rhanbarth ac awgrymu gwelliannau.

14. Y gallu i gyfathrebu ffeithiau a gwybodaeth sy'n ymwneud â cheisiadau a materion manwl.

15. Canolbwyntio ar ganlyniadau a'r gallu i weithio ar eich liwt eich hun a gweithio'n effeithiol dan bwysau.

16. Sgiliau cyfathrebu da ar lafar ac yn ysgrifenedig a'r gallu i feithrin a chynnal cydberthnasau yn fewnol ac yn allanol.

17. Yn hyderus, yn awdurdodol ac yn drefnus, a'r gallu i gyfathrebu'n glir, yn bwyllog ac yn ddiplomataidd.

18. Ymrwymiad i ddarparu gofal cwsmeriaid o safon uchel.

19. Y gallu i deithio ledled Cymru a'r DU yn achlysurol.

20. Parodrwydd i weithio oriau anghymdeithasol yn ôl yr angen.

21. Nid yw bod yn rhugl yn y Gymraeg (yn ysgrifenedig ac ar lafar) yn hanfodol ar gyfer y swydd hon and mae'n ddymunol iawn. Rydym yn anelu at benodi o leiaf un siaradwr Cymraeg rhugl ym mhob un o'r pedwar rhanbarth.